Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Gwanwyn
Spring
2024

# Newyddion Dysgu Cymraeg
# Learn Welsh Latest



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg
Dysgu
Learn

# Cynnydd yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg

Mae'r data swyddogol diweddaraf ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg yn dangos cynnydd o 11% yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg.

Mae'r data, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn dangos bod 16,905 o ddysgwyr unigryw wedi dilyn cyrsiau'r Ganolfan yn ystod 2022-2023, cynnydd 11% ar 2021-2022, pan oedd 15,260 o ddysgwyr unigryw.

Meddai Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: "Mae hyn yn newyddion cadarnhaol dros ben, sy'n adlewyrchu holl weithgarwch y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn edrych ymlaen at barhau i weithio'n greadigol gyda'i phartneriaid i ateb y galw am gyrsiau Cymraeg."

Darllenwch y data diweddaraf trwy ddilyn y ddolen nesaf: Ystadegau 2022 - 2023 | Dysgu Cymraeg



# Increase in the numbers learning Welsh

The latest official data for the Learn Welsh sector shows an increase of 11% in the numbers learning Welsh.

The data, published by the National Centre for Learning Welsh, shows that 16,905 unique learners followed the Centre's courses during 2022-2023, an 11% increase on 2021-2022, when 15,260 unique learners were recorded.

Dona Lewis, Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh, said: "This is extremely positive news, which reflects the range of activity in the Learn Welsh sector. The Centre looks forward to continuing to work creatively with its partners to meet the demand for Welsh courses."

Read the latest data by selecting the following link: Statistics | Learn Welsh

# Partneriaeth elusen Macmillan

Mae'r Ganolfan Genedlaethol ac elusen Macmillan wedi cydweithio i greu pecyn o adnoddau Dysgu Cymraeg, yn sgil derbyn nawdd er cof am Aled Roberts, cyn Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r pecyn yn cynnwys cwrs hunan-astudio byr, sy'n cyflwyno geiriau ac ymadroddion addas i weithwyr lliniarol a diwedd oes, a chwrs preswyl Dysgu Cymraeg.

Bydd tlws er cof am Aled Roberts hefyd yn cael ei gyflwyno, i berson sy'n gwirfoddoli yn y sector Dysgu Cymraeg.  Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 26 Ebrill.  Mae modd gwneud enwebiad trwy ddilyn y ddolen nesaf: **Tlws Coffa Aled Roberts | Dysgu Cymraeg**

# Macmillan charity partnership

The National Centre and Macmillan Cancer Support have worked together to produce a package of Learn Welsh resources, after receiving sponsorship in memory of Aled Roberts, the former Welsh Language Commissioner.

The package includes a short self-study course, introducing suitable words and phrases for palliative and end of life workers, and a Learn Welsh residential course.

A prize in memory of Aled Roberts will also be awarded to a volunteer in the Learn Welsh sector.  The closing date for nominations is 26 April.  Nominations can be made by selecting the following link: **Aled Roberts Memorial Award | Learn Welsh**



# Cefnogi sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg

Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i gefnogi'r gweithlu addysg i gryfhau eu sgiliau Cymraeg. Bydd cyrsiau codi hyder ar gyfer darpar athrawon yn cael eu peilota dros yr haf, gydag adnodd Dysgu Cymraeg yn cael ei ddarparu'n rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon o Fedi 2024 ymlaen. Mae'n bosib, hefyd, i aelodau'r gweithlu addysg ddilyn cwrs Dysgu Cymraeg cymunedol yn rhad ac am ddim. Ar ben hynny, mae cyrsiau hunan-astudio ar-lein pwrpasol wedi'u creu ar gyfer y sector addysg.



# Supporting Welsh skills in the education workforce

Exciting plans are underway to support the education workforce in strengthening their Welsh skills. Confidence-building courses for prospective teachers will be piloted over the summer, with Learn Welsh resources provided as part of teacher training courses from September 2024 onwards. Members of the education workforce can also follow Learn Welsh courses in the community for free. Additionally, online self-study courses have been created especially for the education sector.

## Digwyddiad Dysgu Cymraeg

Bydd y Ganolfan yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar ei chynllun strategol newydd mewn digwyddiad arbennig sy'n cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar 14 Mai. Bydd y digwyddiad yn gyfle i roi diweddariad ar holl waith y sector Dysgu Cymraeg, yn ogystal â dathlu llwyddiannau siaradwyr newydd y Gymraeg.

## Learn Welsh event

The National Centre will launch a public consultation on its new strategic plan at an event held in Cardiff on 14 May. The event will be an opportunity to provide updates on the Learn Welsh sector, as well as celebrate the successes of new Welsh speakers.

## Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn

Dych chi'n adnabod rhywun fasai'n hoffi cymryd rhan yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024? Mae'r gystadleuaeth yn gyfle i ddathlu llwyddiannau, ac ysbrydoli eraill i fynd ati i ddysgu a mwynhau'r Gymraeg. Mae'n bosib gwneud enwebiad trwy ddilyn y ddolen nesaf: **Dysgwr y Flwyddyn | Eisteddfod**

## Learner of the Year competition

Do you know someone who would like to take part in the Welsh Learner of the Year competition at the 2024 Rhondda Cynon Taf Eisteddfod? The competition is an opportunity to celebrate achievements, and inspire others to learn and enjoy Welsh. Nominations can be made by selecting the following link: **Welsh Learner of the Year | Eisteddfod**





## Yr ysgol ger y ffin ble mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae'r Gymraeg yn ffynnu yn Ysgol Gynradd Langstone, ger Casnewydd, ar ôl i'r athrawon ddechrau dysgu'r iaith yn ystod y cyfnod clo. Mae'r criw brwd bellach yn mwynhau dysgu a siarad yr iaith, a'i haddysgu i'r plant yn yr ysgol gyfrwng Saesneg hon. I ddarllen mwy am y stori yma, dilynwch y ddolen nesaf: Yr ysgol ger y ffin ble mae'r Gymraeg yn ffynnu | Dysgu Cymraeg

## The school close to the border where the Welsh language is thriving

Welsh is thriving at Langstone Primary School, near Newport, after teachers began learning the language during lockdown. The enthusiastic group of teachers now enjoy learning and speaking the language, and teaching it to pupils at the school. To read more about this story, select the following link: The school close to the border where the Welsh language is thriving | Learn Welsh

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn